



11 Ionawr 2018

Annwyl

ATISN 11716: “Copi o bob ffurflen gais (ac eithrio ffurflen Atodiad 1) ar gyfer Grant Cymraeg 2050 2017-2018 a dderbyniwyd (llwyddiannus ac aflwyddiannus), y dyddiad a'r amser derbyniwyd y cais ym mewnflwch.grantiau@cymru.gsi.gov.uk, ynghyd â chopi o'r daflen sgorio ceisiadau a lenwyd ar gyfer pob cais.”

Diolch am eich cais, dyddiedig 15 Tachwedd 2017, yn gofyn am gopi o'r holl geisiadau a dderbyniwyd yng nghyd-destun Grant Cymraeg 2050 2017-18, ynghyd â thaflen sgorio i bob cais. Fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 30 Tachwedd i'ch hysbysu ein bod yn credu y byddai'ch cais, fel y'i drafftwyd, yn debygol o fod yn fwy na'r terfyn priodol ac fe wnaethom gynnig y cyfle i chi i fireinio'ch cais. Fe wnaethoch chi ymateb ar 7 Rhagfyr, gan ofyn am bob neges e-bost a anfonwyd at blwch post Mewnflwch.grantiau@cymru.gsi.gov.uk rhwng 7/8/17 a 22/9/17.

Rhoesom rywfaint o wybodaeth ichi ar 8 Ionawr 2018, ac fe'ch hysbyswyd ein bod yn dal i ystyried datgelu'r ffurflenni cais.

Rwyf wedi penderfynu gwrthod cydymffurfio â gweddill y cais hwn gan fy mod yn credu ei fod yn wacsaw. Mae Adran 14 (1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) yn rhoi hawl i awdurdodau cyhoeddus wrthod cydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth a gofnodwyd lle credant fod y cais yn wacsaw. Rwyf wedi nodi'n fanwl y rhesymau dros wrthod cydymffurfio â'r cais hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



neu drwy e-bostio FreedomOfInformationOfficer@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Atodlen A

Cymhwyso a14(1) o'r DRhG.

Mae'r adran hon yn darllen:

Nid yw Adran 1 (1) yn gorfodi awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chais am wybodaeth a gofnodir os yw'r cais yn wacsaw.

Wrth ystyried a yw'r cais hwn yn wacsaw, rydym wedi ystyried y cais yn erbyn y canllawiau a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (ICO) ar Geisiadau Gwacsaw "Vexatious requests" ar <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1198/dealing-with-vexatious-requests.pdf>

Mae paragraffau 64-74 y canllawiau'n cyfeirio at geisiadau a fyddai'n or-feichus nad yw terfyn cost 12 yn berthnasol iddynt. Mae'r canllawiau'n nodi, er na all awdurdod cyhoeddus ddefnyddio adran 12 o ran y gost a'r ymdrech sydd yn gysylltiedig ag eithriadau neu redactio gwybodaeth sydd wedi'i heithrio, fe gall fod ar dir i gymhwyso adran 14(1) lle y gellir gwneud achos y byddai swm yr amser angenrheidiol i adolygu a pharatoi'r wybodaeth i'w datgelu'n or-feichus. Fodd bynnag, mae trothwy uchel ar gyfer gwrthod cais mewn seiliau o'r fath, ac mae awdurdod yn fwyaf tebygol o gael achos dichonol lle:

- Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am swm sylweddol o wybodaeth AC
- Mae gan yr awdurdod bryderon gwirioneddol am wybodaeth a allai fod wedi'i heithrio, AC
- Ni ellir yn hawdd ynysu unrhyw wybodaeth a allai fod wedi'i heithrio gan ei bod wedi'i gwasgaru drwy'r deunydd y gofynnwyd amdani.

Roedd Grant Cymraeg 2050 2017-2018 yn hynod boblogaidd. Cawsom 137 o geisiadau. Nod y cynllun oedd ariannu prosiectau arloesol sy'n diwallu un (neu fwy) o'r meini prawf a osodwyd ar gyfer "arloesi" a nodir isod:

- prosiectau sydd yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg trwy dechnoleg
- prosiectau sydd yn cynnig syniadau neu gweithgareddau newydd sydd yn anelu i hybu defnydd o'r Gymraeg ac sydd heb eu gweithredu yn y gorffennol
- prosiectau sydd yn cynnig ffordd newydd o weithio er mwyn annog a hybu defnydd o'r Gymraeg
- prosiectau sydd yn cymryd risg a sydd â phosibiliad o effaith pellgyrhaeddol os yn llwyddiannus, ond sydd angen y buddsoddiad er mwyn peilota'r syniad i asesu llwyddiant cyn symud i brif ffrydio'r gwaith.

Derbyniwyd ceisiadau am grantiau gan sefydliadau o'r trydydd sector a'r sector preifad a chan gyrff cyhoeddus. Fe wnaeth nifer fawr sefydliadau (llawer mwy nag y gellid eu hariannu) fynd i lawer o ymdrech wrth baratoi eu ceisiadau. Cyflwynwyd nifer o geisiadau a oedd yn cynnwys syniadau unigryw ac arloesol ac rydym yn gobeithio y byddai'r rhai hynny oedd yn aflwyddiannus yn y rownd cyllido hon yn ail-ymgeisio ar gyfer unrhyw rhaglenni ariannu tebyg yn y dyfodol. Roedd lefel manylder, ac felly maint y ceisiadau hyn yn amrywio'n sylweddol. Fe'ch hysbyswyd fod eich cais yn gofyn am lawer o wybodaeth a gofynnwyd i chi a fyddai modd i chi fireinio'ch cais. Credwn fod eich ymateb i'r cynnig hwn yn ehangu eich cais, gan fod

y blwch post mewNFLwch.grantiau@cymru.gsi.gov.uk yn cynnwys negeseuon eraill a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod.

Mae'n amlwg, heb ymgynghori â'r ymgeiswyr unigol, bod y ceisiadau yn cynnwys gwybodaeth y byddai llawer o ymgeiswyr yn ei hystyried yn fasnachol niweidiol o'u rhyddhau'n gyhoeddus neu a fyddai'n eiddo deallusol iddynt. Yn dilyn hynny, cyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a ddylid datgelu pob rhan neu ran o'r ceisiadau yn gyhoeddus ai peidio, byddai'n rhaid i ni ymgynghori â phob ymgeisydd i drafod y posibilrwydd o ddatgelu eu gwybodaeth i'r parth cyhoeddus. Mae profiad wedi dangos bod trydydd partion nad ydynt yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol yn cychwyn trafodaethau o'r safbwynt bod eu holl geisiadau yn gyflawn ac na ddylid eu rhyddhau. Gall trafodaethau gymryd cryn dipyn o amser cyn ein bod ar dir i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch p'un a ellir eithrio gwybodaeth o dan un, neu fwy, o'r eithriadau a ddarperir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Hyd yn oed pe bai trafodaethau o'r fath yn cymryd tua 30 munud gyda phob ymgeisydd, mae hyn yn cyfateb i dros 70 awr o waith. Fodd bynnag, rydym yn amcangyfrif ei bod yn fwy tebygol o gymryd o leiaf 1 awr, ac mewn rhai achosion llawer mwy o amser, i ddod ag ymgynghoriadau gyda'r ymgeiswyr i ben.

Mae gennym bryderon hefyd, p'un a ryddheir gwybodaeth ai peidio, y gallai ymgeiswyr 2017-18 fod yn gyndyn i ymgeisio am arian mewn blynyddoedd ariannol dilynol, gan y gallent ofni bod eu syniadau a'u heiddo deallusol yn cael eu rhoi i'r parth cyhoeddus i unrhyw un eu dilyn/defnyddio. Effaith hyn fyddai lleihau maint ac ansawdd y ceisiadau a dderbynnir yn y dyfodol, ac felly lleihau effeithiolrwydd y ffrwd ariannu wrth wahodd syniadau arloesol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae natur eang y cais yn golygu nad yw gwybodaeth a allai fod wedi'i heithrio yn hawdd i'w hynysu oherwydd ei bod wedi'i gwasgaru ledled deunydd y gofynnwyd amdano. Fel y cyfryw, ni fyddai redactio gwybodaeth sydd wedi'i heithrio yn dasg syml na hawdd.

Wrth gloi, credaf y byddai cydymffurfio â'r cais hwn yn cymryd o leiaf 200 awr o waith er mwyn ymgynghori â thrydydd partion ac ystyried a ddylid cymhwyso eithriadau (mwy na 150 awr) ac ymgymryd â gwaith redactio yn ôl yr angen (50 awr +). Byddai hyn yn faich afresymol iawn ar staff, sydd eisoes â llwyth gwaith sylweddol.

Yn ogystal, ymddengys fod y cais yn wacsaw o ran natur. Prin fyddai'r budd, os o gwbl, i'r ddealltwriaeth gyhoeddus o sut mae'r cynllun grant yn gweithredu a sut yr ydym yn dewis yr ymgeiswyr llwyddiannus o ddatgelu'r ceisiadau, hyd yn oed heb eu redactio. Yn sicr, ni fyddai datgelu yn darparu gwybodaeth i'r ymgeiswyr aflwyddiannus a fyddai'n eu galluogi i wella eu cyfle o lwyddo y tro nesaf. Cafwyd llawer o geisiadau a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ariannu, ond roedd swm yr arian oedd ar gael yn golygu na ellid ariannu'r rhain i gyd. Ar gais ymgeiswyr, rydym yn darparu adborth unigol ar eu ceisiadau, hyn gyda'r bwriad i'w cynorthwyo i wella eu cynigion ar gyfer unrhyw geisiadau at y dyfodol.